# BETH ALLWN NI EI GLYWED?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau ymgysylltiol rydych yn eu cynnig. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd effeithiol o ddatblygu sgiliau cyfannol y dysgwyr (creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Dylech ganolbwyntio ar pam mae dysgu'n bwysig a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybrau y gellid eu dilyn wrth fynd drwy'r gweithgaredd. Nid ydynt wedi'u bwriadu i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull gweithredu yn unol ag anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn cau eu llygaid am funud ac yn nodi'r synau maent yn eu clywed, cyn ailadrodd y dasg yn yr awyr agored. Maent yn ystyried beth yw seinwedd a pha leoedd yn eu bywyd maent yn eu hystyried fel y rhai pwysicaf. Mae dysgwyr yn archwilio sain, sut mae'n symud a beth sy'n effeithio ar ei symudiad, cyn creu cyflwyniad 30 eiliad o hyd am yr hyn maent wedi'i ddysgu.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o greu synau, e.e. triongl, drwm (wedi'i wneud gan y dysgwyr neu offeryn cerdd), pêl-droed, ac ati.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH YW EICH HOFF SEINWEDD?

Mae dysgwyr yn cau eu llygaid am un funud ac yn gwneud nodyn o'r synau maent yn eu clywed, cyn ailadrodd y dasg hon yn yr awyr agored. Maent yn trafod beth wnaethant ei glywed cyn gwrando ar amrywiaeth o synau ac ystyried ym mhle y gallent glywed y synau hyn.

Mae dysgwyr yn ystyried beth yw 'seinwedd' a pha leoedd y maent yn eu hystyried fel y rhai pwysicaf yn eu bywydau. Gwahoddir y dysgwyr i greu 'seinwedd' sy'n tynnu sylw at y lleoedd sy'n bwysig iddynt. Gadewch i'r dysgwyr benderfynu sut byddant yn creu eu seinwedd. Efallai y bydd rhai yn defnyddio synau yn unig, ond efallai y bydd eraill eisiau egluro beth yw'r synau a ble cawsant eu recordio. Er enghraifft, gallai dysgwyr ychwanegu troslais – "Dyma fi yn gwylio fy hoff dîm" ac yna clywir sŵn torf, ac ati. Yn olaf, anogwch y dysgwyr i wrando ar seinweddau ei gilydd a thrafod beth maent yn ei glywed, yn eu grwpiau.

TASG 2

# BETH ALLWN NI EI DDARGANFOD AM SAIN?

Ar ddiwedd y dasg hon, bydd y dysgwyr yn creu cyflwyniad 30 eiliad o hyd am yr hyn maent wedi'i ddysgu am sain drwy gyfres o ymchwiliadau.

Mae'r dysgwyr yn clapio, stampio'r llawr a gweiddi ac yna'n ystyried eu syniadau am y synau maent yn eu gwneud, gan gynnwys beth sy'n creu'r synau, sut maent yn clywed y synau a sut mae'r sain yn teithio atynt.

Mae'r dysgwyr yn archwilio beth allai atal neu newid sain a sut y gall synau fod yn wahanol pan fyddant yn agos at ffynhonnell y sain neu'n bell oddi wrthi. Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio man yn yr awyr agored i ymchwilio i sain, gan ddefnyddio'r syniadau hyn. Er enghraifft, gallent ymchwilio i gwestiynau fel...

- A yw sain yn teithio o amgylch corneli?
- Pa wahaniaeth mae'n ei wneud os ydw i'n wynebu tuag at ymlaen neu tuag at yn ôl wrth wrando ar sain?
- Sut mae'r pellter rhyngof i a'r sain yn effeithio ar yr hyn y gallaf ei glywed?

Bydd angen gofod mawr ar y dysgwyr ar gyfer y gweithgaredd hwn a dylai'r synau a wneir fod mor gyson â phosibl ac nid yn rhy uchel, e.e. taro triongl, bownsio pêl-droed, clicio bysedd, ac ati. Dylent hefyd ail-greu'r synau o wahanol gyfeiriadau er mwyn archwilio a yw'r gwynt yn gwneud gwahaniaeth.

Gofynnwch i'r dysgwyr wneud nodiadau o'u canfyddiadau. Gallent drafod y rhain wedi iddynt ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth a defnyddio hyn fel sail ar gyfer creu cyflwyniad 30 eiliad o hyd am sain.

Gellir dod o hyd i wybodaeth gefndir am briodweddau sain ar y dolenni hyn:

Sound - KS2 Science - BBC Bitesize (Saesneg yn unig)

Sound - Kids - Britannica Kids (Saesneg yn unig)

Mae gwybodaeth a syniadau ar gyfer prosiectau sy'n seiliedig ar sain ar gael ar y ddolen hon:

Explorify at home: Sound – STEM learning (Saesneg yn unig)

## Dolenni defnyddiol

Ar gyfer ystyriaeth ehangach o wyddoniaeth, gan gynnwys sain, gallech hefyd ystyried ymweld â:

- Techniquest - Caerdydd
- Xplore Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth - Wrecsam
- Oriel Science (Saesneg yn unig) - Abertawe
- Seiniau Gwyllt Cymru - Profiad VR - prosiect newydd sy'n cyfuno cerddoriaeth gerddorfaol, synau natur a thechnoleg realiti rhithwir.

## Gweithgareddau defnyddiol eraill ar Tirlun

Mae gweithgareddau eraill ar Tirlun sy'n ystyried sain, gan gynnwys:

- Llygredd sŵn
- Cerddoriaeth natur

Gellir addasu'r rhain i gyd ar gyfer unrhyw leoliad.